# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Hydref 2024

Amser: 09.30 - 12.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/14127) yn: [http://senedd.tv/cy/14127](http://senedd.tv/cy/14127)

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Sian Giddins (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Datganodd Mike Hedges AS ei fod yn Gadeirydd Grŵp Trawsbleidiol Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yn y Senedd.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Ystadegau Alldro Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2022-23 - 3 Hydref 2024**

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) - 3 Hydref 2024**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Undeb PCS: Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26 - 7 Hydref 2024**

## 3 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar yr adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Michelle Morris,

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.2 Cytunodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Amserlen y camau gweithredu y mae'r swyddfa yn bwriadu eu cymryd yn dilyn yr adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion ynghylch y Cod Ymddygiad.

### Egwyl

## 4 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2024-25 gan Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru; Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaethau Ariannol, Llywodraeth Cymru; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Busnes y Llywodraeth a'r Gyllideb, Llywodraeth Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.